

Nodiadau Astudiaeth Feiblaidd: Bod yn Ddisgybl 4

Y Gwaith – Mathew 28

Gweddi: Dduw Dad, ein braint ni yw cael bod yn ddisgyblion i dy Fab Di. Mae ef wedi ein galw, ein dysgu, a rhoi'r gallu i ni ei gyffesu yn Arglwydd, a gwyddom ei fod yn rhoi gwaith i ni hefyd. Wrth i ni astudio'r Beibl yn awr, gad i ni weld i ba gyfeiriad y dylem ymdrech, er mwyn hyrwyddo gwaith dy Deyrnas Di. Amen.

Darllen: Mathew pennod 28, adnodau 16-20 (tud. 1204 yn beibl.net)

Croesgyfeiriadau: Marc 1: 16-20, Luc 9: 1-6, Luc 10: 1-6, Luc 14: 25-33, Actau 2: 38-42, Actau 8: 1-4.

Cyflwyniad: Pan fo Iesu Grist yn galw ei ddisgyblion, neu yn galw pobl ato, mae'n eu galw i waith. Yn Marc 1, pan ddywedodd wrth Simon ac Andreas, 'Dewch ar f'ól i,' fe ychwanegodd, 'fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion.' Yr oedd yn eu galw i bwrpas, a'r pwrpas hwnnw oedd cenhadu, gwaith canolog a chreiddiol yr eglwys Gristnogol.

Sylwer fod Iesu, wrth hyfforddi'r disgyblion, yn eu hanfon allan 'i gyhoeddi teyrnas Dduw ac i iachau'r cleifion'. Nid oedd yn gofyn iddynt aros o fewn y synagogau; i'r gwrthwyneb, yr oedd yn eu dysgu i fynd allan i'r priffyrdd a'r caeau.

Dyfodol yr eglwys yw cenhadaeth yn nerth yr Ysbryd Glân, cyhoeddi'r newyddion da am yr hyn y mae Duw wedi ei wneud trwy Grist. Ein tasg ni, a phob cenhedaeth arall o ddisgyblion, yw mynd a gwneud ychwaneg o ddisgyblion, eu bedyddio a dangos iddynt sut i aros yn ffyddlon i Iesu (Mathew 28). Tan y byddwn wedi sylweddoli hyn o'r newydd, ni fydd dim yn newid yng Nghymru.

Mae bod yn ddisgyblion gweithredol a chenhadol i Grist yn gostus. Golyga adael teulu a chodi croes, a rhaid meddwl ymlaen llaw a ydym yn barod i dalu'r pris (Luc 14). Ond pa bynnag galedi fydd o'n blaenau, mae Iesu wedi addo y bydd Ef gyda ni 'yn wastad hyd ddiwedd amser,' a ble bynnag yr awn, bydd ef yno o'n blaenau.

Cwestiynau:

1. Pam mae disgyblion Iesu Grist heddiw mor swil i son amdano ac mor ofnus ynglŷn â chynnal unrhyw fath o genhadaeth?
2. Sut y gall disgyblion heddiw oresgyn eu hofnau a dechrau cenhadu?
3. Sawl math o genhadaeth fedrwch chi feddwl amdanynt, a beth sy'n eu cysylltu â'i gilydd?

Gweddi: Arglwydd, yr wyt wedi ein galw, ein dysgu, rhoi cyffes ar ein gwefusau a rhoi gwaith i ni. Galluoga ni i wneud y gwaith hwnnw. Tyn i lawr pa bynnag bethau sy'n ein rhwystro, a rhoi i ni'r hyder hwnnw sydd wedi ei wreiddio yn y tynerwch a'r gras sy'n perthyn i dy Ysbryd Glân di, i ni fedru rhannu dy Efengyl yn ddewr gyda phawb y down i gysylltiad â hwy. Gofynnwn hyn yn enw Iesu. Amen.